YSGOL BRYNREFAIL

YMGYRCH GOED CADW

Mi fydd y darllenwyr myaf ffyddlon efallai yn cofio i griw o ddisgyblion ysgol Brynrefail blannu clawdd brodorol ar dir yr ysgol nol ym mis Mawrth 2011.
Wel, mi fuodd 'na griw arall yn parhau â'r gwaith eleni. Ar ddydd Iau, Mai 24 bu 5 o weithwyr caled blwyddyn 10, wrthi yn ddyfal drwy'r prynhawn, yn planu dros 30 o goed ar gyfer parhau gyda'r clawdd a gychwynwyd y llynedd.
Y gweithwyr oedd Lewis Burns, Tomos Griffiths, Izzy Hamilton, Matthew Hughes a Gerallt Morris. .
Ymgyrch gan Goed Cadw (The Woodland Trust) yw hwn, ac o ganlyniad rydym fel ysgol yn derbyn y coed yma am ddim.